# Polisi Derbyn i Ysgolion

## Blwyddyn Academaidd 2025-26



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

1. **Cyflwyniad**
2. **Awdurdodau Derbyn**
    - Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir
    - Awdurdodau Cyfagos
3. **Nifer Derbyn yr Ysgol – Terfyn ar nifer y disgyblion a dderbynnir**
4. **Dalgylchoedd**
5. **Dosbarthiad Ysgolion**
6. **Derbyn y tu allan i'r grŵp blwyddyn cronolegol arferol**
7. **Addysg yn y Cartref**
8. **Dewis ysgol**
    - Dewis y Rhieni
    - Disgyblion a eithriwyd ddwywaith
9. **Cyfarfod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**
10. **Trefniadau Derbyn Arferol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2025-26**
    - Blynyddoedd Cynnar - Addysg Feithrin i Blant 3 Oed (Rhan-amser)
    - Lle Amser Llawn mewn Ysgol Gynradd (4 oed)
    - Derbyn i Ysgolion Uwchradd (Blwyddyn 7) gan gynnwys y Chweched Dosbarth
11. **Derbyniadau y tu allan i'r trefniadau derbyn arferol** (Trosglwyddo rhwng ysgolion)
12. **Gwneud Cais - Sut i Wneud Cais**
    - Llenwi’r Ffurflen Gais
    - Dewis y Rhieni - Trefn Dewisiadau Ysgol
    - Newid / Canslo Dewisiadau Ysgol
    - Dyddiad Dechrau
    - Dewis Iaith – Ysgolion Dwyieithog
    - Cyfeiriad Cartref – Prawf o Gyfeiriad – Symud a newid cyfeiriad/Cyfeiriad Dros dro/Tystiolaeth o gyfeiriad
    - Cyfrifoldeb ar y cyd
    - Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Anghenion Addysgol Arbennig (ADY/AAA)
    - Plant Sipsiwn a Theithwyr
    - Trefniadau eraill – Sir Gâr ddwyieithog- Dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg/Safleoedd ar wahân

13. **Meini Prawf Gor-alw**
    - Pellter / Brodyr a Chwiorydd / Genedigaeth Luosog / Personél Lluoedd Arfog y DU (Lluoedd Arfog)
    - Hysbysiad am Gynnig o le i ddisgybl mewn Ysgol
    - Tynnu Cynnig o Le yn Ôl
    - Ceisiadau Cynnar
    - Ceisiadau Hwyr
    - Rhestr Aros

14. **Apeliadau**
    - **Cyflwr Meddygol**

15. **Amserlen Trefniadau Derbyn**
    - Dyddiadau cau, dyddiadau cynnig, ystod oedran disgyblion ac ati

16. **Atodiad A – Rhestr o Ysgolion**

# 1. CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen hon yn nodi Trefniadau Derbyn i Ysgolion Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26.

Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgol 1998 yn neilltuo swyddogaeth i Awdurdodau Derbyn, Paneli Apêl a Fforwm Derbyn mewn perthynas â derbyn disgyblion i'r Ysgol.

Mae dyletswydd statudol ar bob un o'r cyrff hyn i "weithredu" yn unol â'r Côd Derbyn i Ysgolion a'r Côd Apelau Derbyn i Ysgolion.

Yn unol â'r Côd Derbyn Plant i Ysgol mae'r Awdurdod am gael barn yr holl bartïon perthnasol mewn perthynas â threfniadau a pholisi Derbyn Plant i Ysgol yr Awdurdod.

**Polisi Plant sy'n Codi'n 4 Oed Ysgolion Cynradd**
Yn dilyn y cyfnod ymgynghori chwe wythnos, rhannwyd canlyniad yr ymgynghoriad ar ddyfodol y polisi hwn gydag Aelodau Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin ar 25 Mawrth. Gwnaed y penderfyniad i ddileu'r polisi plant sy'n codi'n 4 oed a derbyn dysgwyr llawn amser i ysgolion cynradd yn y tymor ysgol **yn dilyn** eu pen-blwydd yn bedair oed.

Gweler pwynt 15 Amserlen Trefniadau Derbyn ar gyfer dyddiadau cychwyn a dyddiad cau ceisiadau yn seiliedig ar ddyddiad geni.

# 2. AWDURDODAU DERBYN

Rheolir y drefn o dderbyn plant i ysgolion gan Awdurdod Derbyn.

Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer **Ysgolion Cymunedol** ac **Ysgolion Gwirfoddol a Reolir** yn Sir Gaerfyrddin.

**Ar gyfer Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir** (h.y. ysgolion ffydd), corff llywodraethu pob ysgol sy'n pennu'r trefniadau derbyn, y gellir cael manylion amdanynt gan gorff llywodraethu priodol yr ysgol neu, Gyfarwyddwyr Addysg yr Esgobaeth ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru a Chyfarwyddwyr Addysg yr Esgobaeth ar gyfer ysgolion Catholig yng Nghymru.

**Awdurdodau Addysg Lleol cyfagos**
O gofio natur ddaearyddol Sir Gaerfyrddin mae'n rhannu ffiniau gydag Awdurdodau Lleol eraill. Pe bai'r ysgol yr ydych eisiau i'ch plentyn fynd iddi fod mewn ardal Awdurdod arall dylech gysylltu â'r Awdurdod hwnnw.

# 3. NIFER DERBYN YR YSGOL – TERFYN AR NIFER Y DISGYBLION A DDERBYNNIR

Mae gan bob ysgol Nifer Derbyn (ND) sy'n nodi a chyfyngu ar faint o ddisgyblion y gellir eu derbyn ym mhob grŵp blwyddyn yn yr ysgol. Rhoddir y ND ar gyfer pob ysgol yn y rhestr o ysgolion yn Atodiad A.

Pennwyd y ND ar gyfer pob ysgol trwy ddefnyddio'r fformiwla maint a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyfrifiad yn seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol (Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru – Cylchlythyr 021/2011) ac mae'n ymwneud ag arwynebedd ffisegol adeiladau'r ysgol, y math o gyfleusterau sydd yn yr ysgol, ystod oed a nifer y grwpiau blwyddyn yn yr ysgol.
Gan fod y ND yn seiliedig ar allu'r ysgol i ddarparu lle a chyfleusterau addas ar gyfer disgyblion ni ddylid mynd heibio'r terfyn hwnnw.

Mae'r ND yn berthnasol i'r grŵp oed y derbynnir y disgyblion iddo yn yr ysgol, ac mae'n gosod terfyn ar nifer y disgyblion y gellir eu derbyn. Yn y flwyddyn dderbyn arferol rhaid i'r Awdurdod Derbyn dderbyn disgyblion hyd nes y cyrhaeddir y ND. Os yw nifer y ceisiadau a dderbynnir am lefydd mewn ysgol yn fwy na'r ND bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu'r ceisiadau a dderbyniodd yn unol â'r meini prawf ar gyfer goralw a nodir yn y ddogfen hon.

**Mewn amgylchiadau o'r fath, efallai na fydd rhieni'n llwyddo i gael lle i'w plentyn yn yr ysgol o'u dewis.**

Rhaid i lywodraethwyr ysgol a'r Awdurdod Lleol gadw golwg gyson ar y ND.

# 4. DALGYLCHOEDD

Mae'r Awdurdod yn cydnabod fod yna berthynas bwysig rhwng ysgol a'i chymuned. Oherwydd hynny, mae'r Awdurdod wedi dynodi ardal ddaearyddol benodedig y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu sy'n cael ei galw'n ddalgylch yr ysgol.

Mae manylion dalgylch ysgol ar gael yn yr ysgol, ar wefan y Cyngor Sir neu oddi wrth yr Awdurdod Derbyn perthnasol.

Mae'n bosibl y gall dalgylch newid, fodd bynnag, lle cynigir newidiadau, byddai'r rhain yn destun ymgynghoriad cyhoeddus cyn iddynt gael eu gweithredu.

**Nid yw byw yn nalgylch ysgol yn gwarantu lle yn yr ysgol, ond mae'n ffactor bwysig gan y bydd yn rhoi blaenoriaeth uwch i'r cais na cheisiadau gan unigolion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch.**

Mae byw o fewn dalgylch diffiniedig yr ysgol hefyd yn bwysig gan fod hyn yn un o'r meini prawf allweddol wrth asesu a yw rhywun yn gymwys i dderbyn cymorth gyda chludo plentyn o'r cartref i'r ysgol. Mae manylion trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol i'w cael yma .

Cyn gwneud cais am le mewn ysgol mae'r Awdurdod yn eich cynghori'n gryf i gysylltu a thrafod materion gyda'ch ysgol leol ac os yn bosib mynd i'w gweld fel eich bod yn gwybod am y cyfleusterau a'r cyfleoedd allant eu cynnig.

# 5. DOSBARTHIAD YSGOLION

Mae pob ysgol yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu dosbarthu'n ysgolion cydaddysgol yn yr ystyr eu bod yn darparu ar gyfer bechgyn a merched, ac oni nodir yn wahanol maent yn ysgolion dyddiol ac nid yn ysgolion preswyl. Oni nodir yn wahanol, mae ysgolion uwchradd yn cael eu dosbarthu'n ysgolion cyfun.

# 6. DERBYN Y TU ALLAN I'R GRŴP BLWYDDYN CRONOLEGOL ARFEROL

Bydd ceisiadau am lefydd i ddisgyblion mewn grwpiau blwyddyn sy'n wahanol i'r grŵp blwyddyn arferol yn seiliedig ar ddyddiad geni disgybl yn cael eu hystyried fesul un, a lle y mae hynny'n berthnasol yn ôl y meini prawf ar gyfer goralw a esbonnir yn y ddogfen hon.

Mae proses benodol ar gyfer ystyried y ceisiadau hyn a fydd yn cynnwys asesiad gan yr Awdurdod o amgylchiadau unigol pob achos.  Nid yw hon yn broses awtomatig. Rhaid i rieni anfon e-bost at derbyniadau@sirgar.gov.uk i drafod cais ar gyfer disgybl y tu allan i'r grŵp oedran arferol. Gall rhieni wneud cais am y polisi a'r canllawiau gan y Seicolegydd Addysg a Phlant drwy e-bostio'r cyfeiriad canlynol EPS@sirgar.gov.uk.

Os oes sail i ystyried cais am le mewn ysgol y tu allan i grŵp blwyddyn cronolegol plentyn, nid oes hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad os caiff y cais ei wrthod. Byddai hawl i apelio yn erbyn penderfyniad ar gyfer y grŵp blwyddyn cronolegol arferol yn cael ei gynnig pe bai angen.

# 7. ADDYSG YN Y CARTREF

Gall rhieni ddewis hefyd addysgu eu plant gartref. Yr enw ar hyn yw Addysg Ddewisol yn y Cartref. Mae'r penderfyniad i addysgu gartref yn fater y dylid meddwl yn ofalus amdano, gan ei fod yn golygu ymrwymiad, amser a chost sylweddol.

Os ydych yn ystyried yr opsiwn hwn, fe'ch cynghorir i gysylltu â'r awdurdod, a cheisio arweiniad gan y Swyddog Addysg Ddewisol yn y Cartref drwy ffonio 01554 742369 neu drwy e-bostio eheenquries@sirgar.gov.ukmailto:educationwelfare@sirgar.gov.uk

# 8. DEWIS YSGOL

**(a) Dewis y Rhieni**

Mae gan rieni'r hawl i fynegi ffafriaeth ar gyfer eu dewis ysgol(ion), a chaiff hynny ei hystyried a chydymffurfir â hynny lle bynnag y bo modd. Nid yw mynegi ffafriaeth ynghylch ysgol benodol yn gwarantu lle yn yr ysgol honno. Cynghorir rhieni i ystyried 3 dewis wrth wneud cais am le mewn ysgol. Bydd y dewis a ffefrir fwyaf gan y rhiant yn cael ei gynnig. Dim ond os bydd dewis a ffefrir yn fwy yn aflwyddiannus y caiff dewis a ffefrir yn llai ei gynnig.

Er bod y rhan fwyaf o rieni yn danfon eu plentyn i'r ysgol dalgylch leol, mae gan rieni hawl i ddatgan blaenoriaeth i ysgolion gwahanol. Os ydych yn dymuno gwneud hynny argymhellir eich bod yn cysylltu â'r ysgol rydych yn meddwl amdani cyn gwneud dewis terfynol.

Os ydych yn dewis ysgol nad yw'n ysgol dalgylch leol ichi nac yr ysgol agosaf at eich cartref, dylech gofio fod rhai materion ymarferol y mae angen ichi eu hystyried yn llawn cyn gwneud penderfyniad.

**Y cyntaf yw os nad yw'r plentyn yn mynd i'r ysgol dalgylch leol ichi neu'r ysgol agosaf at eich cartref a bod y penderfyniad hwnnw yn seiliedig ar ddewis rhieni, fod y cyfrifoldeb a'r gost o gludo'r plentyn i'r ysgol ac yn ôl yn gorwedd yn llwyr yn nwylo'r rhieni/gwarcheidwad.**

Mae rhieni'n dweud fod hynny'n gallu bod yn broblem arbennig os oes ganddynt frawd neu chwaer iau nad yw'n cael ei dderbyn yn yr un ysgol gynradd.
Doeth felly yw ystyried a chynllunio ar gyfer y posibilrwydd hwn cyn gwneud cais am le mewn ysgol y tu allan i'r dalgylch.

**Mae'r ail fater yn ymwneud â'r adeg pan mae disgyblion yn trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r sector uwchradd. Mae cael lle mewn ysgolion uwchradd yn seiliedig ar a ydy eich cyfeiriad cartref o fewn dalgylch yr ysgol uwchradd. Nid yw'n seiliedig ar ba ysgol gynradd y buwyd ynddi. Pan mae disgybl wedi bod i ysgol gynradd nad yw'n ysgol dalgylch benodedig leol iddynt mae mwy o debygrwydd na fyddant yn gallu trosglwyddo i'r un ysgol uwchradd â'u cyfoedion a'u cyd-ddisgyblion.**

Ni fydd y materion hyn yn berthnasol i lawer, ond gan eu bod wedi creu anawsterau i rieni yn y gorffennol argymhellir eich bod yn eu hystyried ac yn cynllunio ar eu cyfer cyn gwneud eich dewis terfynol.

Bydd yr Awdurdod a llywodraethwyr ysgol yn cydymffurfio'n gyfreithlon ag unrhyw fynegiant o flaenoriaeth i ysgol benodol. Fel gyda phob cais bydd blaenoriaeth i ysgol benodol yn gorfod cael ei hystyried a'i hasesu yn rhan o'r broses dderbyn i sicrhau nad yw'r Awdurdod yn mynd heibio'r terfyn ar gyfer derbyn disgyblion i'r ysgol honno ar gyfer y grŵp blwyddyn penodol.

**(b) Dewisiadau Rhieni – Disgyblion a Waharddwyd Ddwywaith**

Gall rhiant ddatgan ffafriaeth i ysgol y mae'n dymuno i'w blentyn gael ei addysgu ynddi, nid oes raid i'r Awdurdod Derbyn gydymffurfio â'r dewis hwnnw am gyfnod o ddwy flynedd o ddyddiad y gwaharddiad diweddaraf os yw disgybl wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu ragor.

Nid yw hynny'n berthnasol i fyfyrwyr sydd â datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), plant o dan oed ysgol gorfodol, plant a gafodd le ysgol yn ôl, neu a fyddai wedi cael lle yn ôl pe bai wedi bod yn ymarferol gwneud hynny, neu Blant sy'n Derbyn Gofal pan wneir y cais am le gan y rhiant corfforaethol.

# 9. DARPARU AR GYFER ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

Mae gan rai plant anghenion addysgol ychwanegol a/neu anabledd sy'n golygu fod angen gwneud darpariaeth ychwanegol ar eu cyfer fel y gallant ddysgu'n effeithiol. Rhoddir blaenoriaeth i ddisgybl pan fydd ysgol wedi'i henwi yn rhan 2D yng Nghynllun Datblygu Unigol (CDU) disgybl neu yn rhan 4 y Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig.

# 10. TREFNIADAU DERBYN ARFEROL

**Yn y rhan hon o'r ddogfen nodir gweithdrefnau Sir Gaerfyrddin o ran trefniadau derbyn arferol addysg Feithrin, Gynradd, Uwchradd a chweched dosbarth ar gyfer y flwyddyn academaidd.**

**Crynodeb - Ar gyfer Ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir.-**

- **Mae'n rhaid, yn ôl y gyfraith, i Rieni/Gwarcheidwaid gyflwyno cais** i'r Awdurdod am le mewn ysgol.
- Nodir **dyddiadau cau** ar gyfer ceisiadau yn yr **Amserlen Trefniadau Derbyn** ar ddiwedd y ddogfen hon.
- Rhaid gwneud cais erbyn y **dyddiadau cau**
- **Ni fydd disgyblion yn trosglwyddo'n awtomatig** i'r Ysgol Gynradd o'r Ysgol Feithrin.
- **Ni fydd disgyblion yn trosglwyddo'n awtomatig** i'r Ysgol Uwchradd o'r Ysgol Gynradd.
- Mae ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiadau cau yn annhebygol o gael lle yn eu hysgol dewis cyntaf.
- Defnyddir Meini Prawf Gor-alw penodol wrth ddyrannu lle mewn ysgol.
- **Wrth ddyrannu lleoedd, ni roddir ystyriaeth** i'r ysgol feithrin a'r ysgol gynradd y mae'r disgybl yn ei mynychu. Y cyfeiriad cartref fydd yn cael ei ystyried wrth dderbyn i ysgolion.
- **Nid yw'n bosibl i unrhyw unigolyn nac ysgol roi sicrwydd** ymlaen llaw y bydd lle ar gael i blentyn mewn ysgol. Dylid diystyru sylwadau neu addewidion o'r fath.
- **Anfonir e-bost neu lythyr** gan yr Awdurdod yn rhoi gwybod a yw'r cais wedi bod yn llwyddiannus neu wedi'i wrthod.
- **Ni chaiff plentyn ddechrau yn yr ysgol hyd nes bod y rhiant/gwarcheidwad wedi cadarnhau gyda'r Awdurdod ei fod yn derbyn y lle sy'n cael ei gynnig.**

## (a) Blynyddoedd Cynnar - Addysg Feithrin i Blant 3 Oed (Rhan-amser)

Mae addysg y Blynyddoedd Cynnar yn ddarpariaeth anstatudol sydd ar gael i blant 3 oed a bydd yn rhaid gwneud cais am le mewn ysgol h.y ar gyfer categorïau (i) a (ii) isod, i'r Awdurdod Derbyn. Dylid cyflwyno ceisiadau derbyn i'r Awdurdod erbyn y dyddiad a nodir yn yr Amserlen Trefniadau Derbyn. Mae sawl math o ddarpariaeth:-

I. Ysgol Feithrin – Ysgol Feithrin Rhydaman yw'r unig ysgol feithrin yn y Sir.
II. Dosbarthiadau Meithrin/Blynyddoedd Cynnar mewn Ysgolion Cynradd (ysgolion 3-11 oed).
III. Darpariaeth gan y sector nas cynhelir sy'n bartneriaid yn y Grŵp Hawliau Bore Oes, mudiadau fel Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-Ysgol Cymru a Mudiad Meithrin a darparwyr preifat. Gall Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin eich cynorthwyo yn y broses hon. Cysylltwch drwy e-bostio gwybplant@sirgar.gov.uk, neu drwy ffonio 01267 246555.

Mae hawl gan bob plentyn 3 blwydd oed gael lleoliad am ddim am 10 awr yr wythnos mewn sefydliad cofrestredig trwy'r Grŵp Hawliau Bore Oes o'r tymor yn dilyn ei drydydd pen-blwydd.

**Fel rheol, derbynnir plant i ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar yn rhan-amser ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd fel a ganlyn:-**

| 3ydd Pen-blwydd y Plentyn | Y Tymor Derbyn |
|---|---|
| 1 Medi - 31 Rhagfyr | Tymor y Gwanwyn |
| 1 Ionawr - 31 Mawrth | Tymor yr Haf |
| 1 Ebrill - 31 Awst | Tymor yr Hydref |

**Y DYDDIAD CAU I WNEUD CAIS AM LE RHAN-AMSER MEWN YSGOL FEITHRIN YW 31 GORFFENNAF 2024.**

**Nid oes** gan rieni hawl i apêl os na chynigir lle i'w plentyn yn eu dewis leoliad blynyddoedd cynnar. **Ni fydd gan ddisgyblion sy'n cael eu derbyn i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar neu feithrin mewn ysgol hawl 'awtomatig' i barhau â'u haddysg drwy gael lle amser llawn yn yr ysgol honno.**

Ni fydd y ddarpariaeth ran-amser y mae disgybl yn ei mynychu yn cael ei hystyried pan fydd y lle amser llawn mewn ysgol gynradd yn cael ei ddyrannu.

Rhaid gwneud cais ar wahân i'r Awdurdod i gael lle amser llawn (4 oed yn yr ysgol). O ganlyniad i'r penderfyniad i ddileu polisi plant sy'n codi'n 4 oed, mae disgyblion yn gymwys i ddechrau'r ysgol ar ddechrau'r tymor ar ôl i'r disgybl dderbyn ei bedwerydd pen-blwydd.

Dylid cyflwyno ceisiadau derbyn i'r Awdurdod erbyn y dyddiad a nodir yn yr Amserlen Trefniadau Derbyn.

Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd ar gael, yna bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu ceisiadau yn unol â'i feini prawf gor-alw a nodir yn y ddogfen hon.

Ni fydd ceisiadau sy'n dod i law ar ôl y ~~dyddiad cau~~ penodedig yn cael eu hystyried nes bod y ceisiadau a ddaeth i law cyn y dyddiad cau wedi cael eu dyfarnu. Caiff y rhain eu hystyried fel **Ceisiadau Hwyr** fel y nodir yn y ddogfen hon.

Lle mae'n ymarferol mae'r Awdurdod Derbyn yn caniatáu i ddarparwyr nas cynhelir ddefnyddio adeiladau ysgol ac mae nifer yn manteisio ar y fath gyfleuster. Ni fydd mynychu darpariaeth o'r fath yn cael ei ystyried wrth ddyrannu Lleoedd Rhan-amser mewn Ysgol Feithrin neu Leoedd Amser Llawn mewn Ysgol Gynradd.

## (b) Lle Amser Llawn mewn Ysgol Gynradd (4 oed)

Lle nad oes darpariaeth blynyddoedd cynnar mewn lleoliad a gynhelir. Bydd dysgwyr llawn amser yn cael eu derbyn i ysgolion cynradd yn ystod tymor yr ysgol **yn dilyn** eu pen-blwydd yn bedair oed o ganlyniad i'r penderfyniad i ddileu'r polisi plant sy'n codi'n 4 oed yn dilyn ymgynghoriad.

| 4ydd Pen-blwydd y Plentyn | Y Tymor Derbyn |
|---|---|
| 1 Medi - 31 Rhagfyr | Tymor y Gwanwyn |
| 1 Ionawr - 31 Mawrth | Tymor yr Haf |
| 1 Ebrill - 31 Awst | Tymor yr Hydref |

**Y DYDDIAD CAU I WNEUD CAIS AM LE AMSER LLAWN MEWN YSGOL GYNRADD FYDD 31 IONAWR 2025**

Yn unol â Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 gosodir terfyn o 30 o ddisgyblion fesul athro cymwysedig ar ddosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, a elwir yn Ddeddfwriaeth ar Faint Dosbarthiadau Babanod.

**Nid yw'r ysgol feithrin a'r darparwr blynyddoedd cynnar y mae'r disgybl yn eu mynychu yn fater sy'n cael ei ystyried wrth ddyrannu lleoedd.**

Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd ar gael, yna bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu ceisiadau yn unol â'i feini prawf gor-alw a nodir yn y ddogfen hon.

Ni fydd ceisiadau sy'n dod i law ar ôl y **dyddiad cau** penodedig yn cael eu hystyried nes bod y ceisiadau a ddaeth i law cyn y dyddiad cau wedi cael eu dyfarnu. Caiff y rhain eu hystyried fel **Ceisiadau Hwyr** fel y nodir yn y ddogfen hon.

## Gofyniad cyfreithiol i ddechrau'r ysgol (5 oed)

Yn unol â'r gyfraith mae'n rhaid i rieni drefnu bod eu plant yn derbyn addysg amser llawn ar ddechrau'r tymhorau canlynol:-

- Tymor yr Hydref ar gyfer y rhai sy'n 5 mlwydd oed rhwng 1 Ebrill a 31 Awst;
- Tymor y Gwanwyn ar gyfer y rhai sy'n 5 mlwydd oed rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr;
- Tymor yr Haf ar gyfer y rhai sy'n 5 mlwydd oed rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth.



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Nid yw'r gyfraith yn mynnu bod plentyn yn dechrau'r ysgol tan **y tymor sy'n dilyn pumed pen-blwydd y plentyn.**

Gall rhiant ohirio dyddiad derbyn plentyn i'r ysgol tan ddechrau'r tymor sy'n dilyn pumed pen-blwydd y plentyn cyhyd â bod y dyddiad hwnnw yn yr un flwyddyn ysgol â'r un maent wedi gwneud cais amdani.

## (c) Derbyn i Ysgolion Uwchradd gan gynnwys y Chweched Dosbarth

Mae'n rhaid i blant ysgolion cynradd ddechrau'r ysgol uwchradd yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 11 oed.

Mae'n ofynnol i riant/gwarcheidwad gwblhau cais ar-lein ar gyfer y disgyblion hyn erbyn y dyddiad cau penodedig **fel y nodir yn yr Amserlen Trefniadau Derbyn.**

Ni fydd ceisiadau sy'n dod i law ar ôl y **dyddiad cau** penodedig yn cael eu hystyried nes bod y ceisiadau a ddaeth i law cyn y dyddiad cau wedi cael eu dyfarnu. Caiff y rhain eu hystyried fel **Ceisiadau Hwyr** fel y nodir yn y ddogfen hon.

Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd ar gael, yna bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu ceisiadau yn unol â'i feini prawf gor-alw a nodir yn y ddogfen hon.

**Nid yw'r ysgol gynradd y mae'r disgybl yn ei mynychu yn fater sy'n cael ei ystyried wrth ddyrannu lleoedd.**

**Rhaid llenwi ffurflenni cais ar-lein erbyn y dyddiad cau penodedig.** Os na fydd y ffurflen wedi cael ei chyflwyno erbyn y dyddiad cau, mae'r siawns o gael lle yn y dewis ysgol yn llai, felly hefyd y posibilrwydd o gael cludiant i'r ysgol am ddim.

Ein bwriad yw anfon llythyrau penderfyniad mewn perthynas â'r ceisiadau hyn a gyflwynwyd erbyn y dyddiad cau erbyn y dyddiad cynnig **a nodir yn yr Amserlen Trefniadau Derbyn.**

**Y DYDDIAD CAU I WNEUD CAIS AM LE AMSER LLAWN MEWN YSGOL UWCHRADD YW 29 TACHWEDD 2024**

**Derbyn i'r Chweched Dosbarth**

Cyfrifoldeb pob ysgol unigol yw prosesu eu ceisiadau chweched dosbarth eu hunain.

Felly, dylid trafod trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion i Chweched Dosbarth Ysgolion Cymunedol â'r ysgol unigol cyn gwneud cais am le.

# 11. DERBYNIADAU Y TU ALLAN I'R TREFNIADAU DERBYN ARFEROL. (Trosglwyddo rhwng ysgolion)

Pan fydd ceisiadau yn cael eu gwneud y tu allan i'r trefniadau derbyn arferol fel y gwelir yn rhan 8, caiff ceisiadau eu prosesu yn unol â'r trefniadau canlynol.

Mae newid ysgol yn gofyn am ystyriaeth ddifrifol a dylid trafod y mater yn llawn gyda phennaeth ysgol bresennol y plentyn yn y lle cyntaf. Mae angen i'r rhiant/gwarcheidwad ystyried a yw symud ysgol er lles pennaf y plentyn. Bydd yr Adran Addysg a Phlant hefyd yn darparu cyngor os oes angen.

Os bydd rhiant/gwarcheidwad yn dymuno symud plentyn o un ysgol i'r llall, rhaid llenwi'r ffurflen gais ar-lein. [newid ysgolion]

Nid yw bob amser yn bosibl cynnig lle i ddisgyblion mewn grŵp blwyddyn mewn ysgol y tu allan i'r cylch derbyn arferol, gan y gallai'r holl leoedd sydd ar gael fod eisoes wedi'u dyrannu i ddisgyblion yn gynharach (h.y. ceisiadau cynharach i symud ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd/blynyddoedd academaidd blaenorol, neu yn ystod y cylch derbyn arferol).

Nid yw symud i ddalgylch ysgol yn gwarantu lle mewn ysgol. Nid yw cael brawd neu chwaer sy'n cael cynnig lle mewn ysgol neu ei dderbyn i ysgol yn gwarantu lle mewn ysgol i frodyr a chwiorydd eraill. Os oes nifer o blant o un aelwyd yn gwneud cais am symud i ysgol, efallai na fydd yn bosibl cynnig lle mewn ysgol i'r holl blant yn yr un ysgol os yw rhai grwpiau blwyddyn eisoes dros ei nifer derbyn.

Bydd ceisiadau sy'n dod i law cyn y Flwyddyn Academaidd newydd y mae'r cais ar ei chyfer yn cael eu prosesu yn Nhymor yr Haf cyn i'r Flwyddyn Academaidd ddechrau.

Dylid asesu ceisiadau sy'n dod i law yn ystod y Flwyddyn Academaidd a rhoi gwybod i rieni/gwarcheidwaid am benderfyniad cyn pen 15 diwrnod ysgol neu 28 diwrnod calendr (pa un bynnag yw'r cynharaf) a yw'r cais wedi bod yn llwyddiannus ai peidio. Caiff pob cais ei brosesu yn unol â Chôd Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.
Os caiff lle ei gynnig. Mae'n ofynnol i rieni dderbyn neu wrthod y cynnig o le. Ar ôl derbyn bydd lle yn yr ysgol yn cael ei gadw tan ddiwedd y tymor y disgwylir iddynt ddechrau.

Bydd y cynnig o le yn cael ei ddileu a'i ailddyrannu i ddisgyblion eraill os:

- nad yw'r cynnig o le yn cael ei dderbyn o fewn y cyfnod amser a nodir ar y llythyr cynnig, neu
- os nad yw'r plentyn yn dechrau erbyn diwedd y tymor y gwnaethpwyd cais ar ei gyfer.

Gofynnir i rieni sy'n dymuno gohirio eu dyddiad dechrau yn hirach nag un tymor, ailymgeisio am le mewn ysgol.

Bydd disgybl sy'n symud i'r sir yn cael ei roi ar gofrestr yr ysgol newydd yn Sir Gaerfyrddin ar y dyddiad cychwyn a nodir ar yr e-bost cynnig.

Bydd angen gwirio ceisiadau ar gyfer Plant a nodwyd naill ai fel Plentyn sy'n Derbyn Gofal neu Blentyn a Oedd yn Arfer Derbyn Gofal, plentyn â Datganiad, neu Gynllun Datblygu Unigol cyn eu prosesu.

Caiff ceisiadau eu hystyried yn unol â'r gweithdrefnau a'r polisïau derbyn a nodir yn y ddogfen hon. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd ar gael, yna bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu ceisiadau yn unol â'i feini prawf gor-alw a nodir yn y ddogfen hon.

Os na fydd rhieni'n llwyddo i gael lle i'w plentyn yn eu dewis ysgol, fe'u hysbysir drwy e-bost o'r rheswm/rhesymau dros hyn. Bydd yr e-bost penderfyniad hefyd yn nodi eu hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw ac yn esbonio'r broses apelio gan gynnwys y dyddiad cau i apelio. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses apelio yn y ddogfen hon.

**Rhestrau aros ar gyfer ceisiadau y tu allan i'r trefniadau derbyn arferol**

Mae ceisiadau sydd wedi methu cael lle mewn ysgol a ddewisir yn cael eu cadw ar y rhestr aros tan ddiwrnod ysgol olaf y flwyddyn academaidd y gwnaethant gais amdani. Rhaid i rieni anfon e-bost at derbyniadau@sirgar.gov.uk os ydynt am i enw eu plentyn gael ei roi ar y rhestr aros.

# 12. GWNEUD CAIS

**Yr Angen i Wneud Cais**

Mae'n rhaid i riant/gwarcheidwad gwblhau a chyflwyno cais ar-lein ar gyfer derbyn disgybl i ysgol i'r Awdurdod neu, ar gyfer Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir, dylid gwneud ceisiadau i'r Corff Llywodraethu.

Bydd y ffurflen gais yn gofyn i riant/gwarcheidwad restru eu dewisiadau o ran ysgolion yn ôl y dewis 1af, yr 2il ddewis a'r 3ydd dewis.

Rhaid cyflwyno ceisiadau am y Trefniadau Derbyn Arferol erbyn y dyddiadau cau penodedig fel y nodir yn yr Amserlen Trefniadau Derbyn yn y ddogfen hon. Bydd unrhyw geisiadau dilynol sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddwyd yn cael eu prosesu fel cais hwyr fel y nodir yn y ddogfen hon.

Bydd yr Awdurdod Derbyn yn rhoi gwybod i Rieni/Gwarcheidwaid ynghylch a yw'r cais wedi bod yn llwyddiannus ai peidio yn unol â'r trefniadau derbyn. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau a wneir ar ran Plentyn sy'n Derbyn Gofal gan riant corfforaethol os mai'r Awdurdod yw'r rhiant corfforaethol a'r Awdurdod Derbyn.

**Mae gwneud cais am le mewn ysgol y tu allan i'r trefniadau derbyn arferol wedi'u nodi yn rhan 11 o'r ddogfen hon. Ni all unrhyw Ysgol Gymunedol nac Ysgol Wirfoddol a Reolir awdurdodi derbyn disgybl.**

**Sut i Wneud Cais**

Wedi i'r rhiant/gwarcheidwad benderfynu i ba ysgol y maent am anfon eu plentyn/plant dylent gyflwyno cais i'r Awdurdod Derbyn priodol.

**Ar gyfer ysgolion Cymunedol ac ysgolion Gwirfoddol a Reolir gellir gwneud hyn:-**


Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

- *Yn uniongyrchol ar-lein gan ddefnyddio gwefan yr Awdurdod:* *https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/addysg-ac-ysgolion/derbyn-i-ysgolion-a-newid-ysgol/*
- *Trwy gysylltu â'r ysgol*

**Ar gyfer Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir**

- *Cyflwyno cais yn uniongyrchol i'r ysgol*
- *Cyflwyno cais ar-lein trwy wefan Cyngor Sir Caerfyrddin*

Argymhellir bod **rhieni'n cysylltu â'u dewis ysgol yn uniongyrchol cyn gwneud cais.** Bydd gan yr ysgol fap o'i dalgylch a gall gynorthwyo rhieni trwy ddarparu gwybodaeth arall am yr ysgol a'r trefniadau derbyn.

## (a) Llenwi'r Ffurflen Gais

**Cyfrifoldeb Rhiant/Gwarcheidwad**

Rhaid i'r sawl sy'n cwblhau'r ffurflen gais sicrhau bod ganddynt gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn dan sylw a bod pawb sydd â chyfrifoldeb rhiant yn cytuno. Os nad yw'n bosibl dod i gydgytundeb, mae angen gorchymyn llys i gadarnhau y gellir prosesu'r cais. Bydd angen i'r ymgeisydd dicio blwch ar y ffurflen gais ar-lein i gadarnhau cytundeb rhieni.

Pan fo anghytundeb neu wrthwynebiad, bydd y cais yn cael ei ohirio hyd nes y caiff y mater ei ddatrys rhwng y rhieni neu hyd nes y ceir gorchymyn llys yn nodi a ellir gwneud cais.

## (b) Dewis Rhieni - Dewisiadau Ysgol

Bydd y rhieni yn gallu gwneud cais ar-lein am le mewn uchafswm o dair ysgol ar y ffurflen gais. Argymhellir bod rhieni/gwarcheidwaid yn gwneud cais am 3 ysgol i gynyddu'r siawns o sicrhau lle mewn ysgol a ddewisir.

Bydd rhaid i'r rhieni sy'n dewis gwneud cais am 2 neu 3 ysgol eu rhestru yn ôl blaenoriaeth (h.y. dewis $1^{af}$, $2^{il}$ a $3^{ydd}$).

Yn y man cyntaf, bydd pob cais yn cael yr un ystyriaeth, ond os bydd lle'n cael ei gynnig yn yr ysgol sy'n ddewis $1^{af}$ (neu'n unig ddewis), ni fydd lleoedd yn cael eu cynnig yn yr ysgol sy'n $2^{il}$ ddewis neu'n $3^{ydd}$ dewis.

Os caiff y dewis $1^{af}$ ei wrthod, bydd eich $2^{il}$ ddewis yn cael ei drin fel petai'n ddewis $1^{af}$. Bydd y broses hon yn parhau hyd nes y cynigir lle neu hyd nes y bydd y 3 dewis wedi'u hystyried.
Dylai rhieni/gwarcheidwaid anfon e-bost at derbyniadau@sirgar.gov.uk i drafod lle mewn ysgol arall os yw pob dewis wedi bod yn aflwyddiannus.

Os bydd nifer o geisiadau yn dod i law, cânt eu prosesu'n awtomatig yn y drefn y maent wedi dod i law. Os ydych yn cyflwyno cais newydd, y cais a ddaeth i law gyntaf fydd eich dewis $1^{af}$, $2^{il}$ ddewis a $3^{ydd}$ dewis o hyd, a bydd eich ail gais yn cael ei ychwanegu fel eich $4^{ydd}$, $5^{ed}$ a $6^{ed}$ dewis.

## (c) Newid neu ganslo dewisiadau ysgol

Rhaid i rieni anfon e-bost at derbyniadau@sirgar.gov.uk i newid trefn eu dewisiadau ysgol. Efallai y gofynnir i rieni gyflwyno cais newydd. Bydd newidiadau a wneir ar ôl y dyddiadau cau a gyhoeddwyd yn cael eu hystyried fel ceisiadau hwyr.

## (d) Dyddiad Dechrau

Wrth wneud cais o fewn y rowndiau derbyn arferol bydd dyddiad dechrau'r disgybl yn cael ei ddynodi'n awtomatig gyda dyddiad cychwyn safonol sy'n gysylltiedig â disgybl o'r oedran hwnnw.

Wrth wneud cais am dderbyn lle y tu allan i'r cylch derbyn arferol, gofynnir i rieni nodi dyddiad dechrau a ffefrir ar gyfer eu hysgol newydd.

## (e) Dewis Iaith – Ysgolion Dwyieithog

Lle gall ysgol gynnig mwy nag un ffrwd iaith, ni fydd dewis y rhiant ar gyfer ffrwd iaith benodol yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses ymgeisio am dderbyn i ysgol. Bydd y cais am dderbyn i ysgol dim ond yn ystyried dyrannu lle i'r grŵp blwyddyn yn yr ysgol. Dylid trafod unrhyw ddewisiadau iaith gyda'r ysgol ar ôl dyrannu lle i ddisgybl.

## (f) Cyfeiriad Cartref

Bernir mai cyfeiriad cartref disgybl yw eiddo preswyl sy'n unig breswylfa neu'n brif breswylfa'r plentyn, annedd neu adeilad preswyl, heb gynnwys unrhyw dir sydd ynghlwm wrthi/wrtho. Mae'r dalgylch yn seiliedig ar leoliad y tŷ lle mae'r disgybl yn byw ac nid unrhyw dir o amgylch y tŷ hwnnw, ac sydd naill ai:-

- Yn eiddo i riant/rhieni’r plentyn neu i berson a chanddo gyfrifoldeb rhianta cyfreithiol penodedig am y plentyn; neu
- Wedi'i brydlesu neu ei rentu gan riant/rhieni y plentyn neu gan y person sydd â chyfrifoldeb rhiant yn unol â chytundeb rhent ysgrifenedig, ac wedi'i lofnodi gan y landlord a'r tenant, am gyfnod o chwe mis neu ragor.

**Prawf o'ch Cyfeiriad**

Mae’r Awdurdod yn cadw’r hawl i ofyn am brawf o gyfeiriad ar yr adeg y cynigir lle i’r plentyn.

Er mwyn i'r cais gael ei ystyried fel rhan o'r cylch derbyn arferol, mae'n bosibl y bydd angen ichi ddarparu prawf eich bod yn byw yn y cyfeiriad a nodwyd ar y ffurflen gais yn unol â'r Amserlen Trefniadau Derbyn.

Bydd yr Awdurdod yn ystyried unrhyw ddwy ddogfen o blith y canlynol yn gymorth ar gyfer penderfynu eich bod yn byw mewn cyfeiriad penodol:-

(a) Bil y Dreth Gyngor neu Fudd-dal Tai gwreiddiol neu lythyr hysbysu nad yw'n fwy na 12 mis oed;
(b) Bil cyfleustod gwreiddiol (nad yw'n fwy na 3 mis oed);
(c) Llythyr dyfarnu gwreiddiol ynghylch Budd-dal Plant neu Gredyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol (nad yw'r dyddiad arno'n fwy na thri mis yn ôl, a'i fod yn **nodi enw/enwau y plentyn/plant**);
(ch) Cytundeb tenantiaeth/prydles wedi'i lofnodi a'i ddyddio, sy'n para am o leiaf chwe mis ond sydd â mis neu ragor ar ôl ar y cytundeb;
(d) Cyfriflen cerdyn credyd neu gyfrif banc wreiddiol sy'n dangos y cyfeiriad (heb fod yn fwy na dau fis yn ôl);
(dd) Cadarnhad ysgrifenedig gan Fanc neu Gymdeithas Adeiladu'r ymgeisydd yn cadarnhau manylion y newid cyfeiriad ac ar ba ddyddiad y digwyddodd y newid;
(e) Trwydded yrru llun adnabod gyfredol ddilys.

Fel rhan o'r broses dderbyn mae'n bosibl y bydd angen ichi ddarparu prawf o'ch cyfeiriad mewn cysylltiad â'ch cais. Bydd yr Awdurdod yn ceisio gwirio'r wybodaeth a ddarparwyd ac mae'n cadw'r hawl i fynnu bod ymgeisydd yn darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol yr ystyrir ei bod yn angenrheidiol i gadarnhau'r breswyliaeth neu i gymryd camau rhesymol i bennu a yw cais yn dwyllodrus ai peidio.

Os caiff lle ei gynnig mewn ysgol yn seiliedig ar gyfeiriad y canfyddir wedyn ei fod yn wahanol i gyfeiriad arferol a pharhaol y plentyn, yna mae'n bosibl y caiff y lle ei dynnu'n ôl.

Os bydd rhiant neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant cyfreithiol dros y plentyn yn rhoi datganiad anwir, gan wybod a chan fwriadu hynny, a fyddai'n effeithio ar lwyddiant eu cais, yna mae'n bosibl y caiff y lle ei dynnu'n ôl.

Os na ddarperir prawf preswyliaeth ar gais, yna ni fydd yr Awdurdod yn gallu prosesu'r cais ac mae'n bosibl y caiff y lle ei ddyfarnu i ddisgybl arall.

**Symud Tŷ a Newid Cyfeiriad**

Os ydych yn bwriadu symud tŷ a'ch bod yn cyflwyno cais am le mewn ysgol ar sail y cyfeiriad newydd, bydd yr Awdurdod yn cymryd camau i wirio'r trefniadau. Gall yr Awdurdod dderbyn hefyd;

a. Llythyr cyfreithiwr yn cadarnhau dyddiad cwblhau eich pryniant tŷ (nid yw cyfnewid contract yn ddigonol), rhaid darparu tystiolaeth o'r cwblhau cyn i'r lle ysgol gael ei gynnig.
b. Cytundeb tenantiaeth wedi'i lofnodi am o leiaf 6 mis, gweler (d) prawf o'ch cyfeiriad.

Os na allwch ddarparu prawf o'ch cyfeiriad erbyn y dyddiad cau, yna bydd eich cais yn cael ei seilio ar eich cyfeiriad cyfredol.

Os ydych yn symud cyfeiriad ar ôl y diwrnod cynnig, bydd eich cais yn cael ei drin fel cais hwyr, gan y bydd lleoedd eisoes wedi'u dyrannu.

**Cyfeiriad Dros Dro**

Dim ond mewn amgylchiadau penodol y bydd cyfeiriad dros dro yn cael ei ystyried, megis:

- Ffoaduriaid/mewnfudwyr wedi symud i'r Sir yn ddiweddar ac yn byw mewn gwestai neu lety dros dro a ddarparwyd neu y cytunwyd ar hynny gan y Swyddfa Gartref neu drwy sianeli swyddogol.
- Dogfennau sy'n profi bod y teulu wedi cael llety brys oherwydd nad oedd yr eiddo blaenorol yn ffit i fyw ynddo yn barhaol.
- Neu brawf bod y tŷ oedd yn "gartref teuluol" blaenorol wedi cael ei ildio.

**Tystiolaeth o Gyfeiriad**

Efallai y bydd rhieni'n cael eu temtio i wneud cais am le mewn ysgol gan ddefnyddio cyfeiriad nad yw'n gyfeiriad cartref arferol disgybl, fel cyfeiriadau neiniau a theidiau neu aelodau eraill o'r teulu, a hynny er mwyn cael mantais ar gyfer lle mewn ysgol, a gall gwneud hynny hyd yn oed ar sail dros dro gael ei ystyried yn achos o dwyll a gall arwain at dynnu'r lle yn ôl.

Gallai enghreifftiau o geisiadau twyllodrus gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Defnyddio cyfeiriad neiniau a theidiau neu gyfeiriad aelodau eraill o'r teulu ar gyfer y cais,
- Defnyddio eiddo arall y mae'r rhieni'n berchen arno, ond nad yw'n cael ei ddefnyddio fel y prif gyfeiriad cartref, - gellir gofyn am dystiolaeth o'r defnydd a wneir o eiddo arall.
- Gwneud cais o gyfeiriad perthynas ond cadw eich eiddo blaenorol.
- Cytundebau rhent llai na 6 mis o hyd.
- Byw mewn cyfeiriad dros dro tra bo gwaith adeiladu yn cael ei wneud yn y "cyfeiriad cartref"

Os canfyddir bod rhieni'n defnyddio cyfeiriadau ffug i gael mantais ar gyfer lle mewn ysgol, mae'n bosibl na fydd eu ceisiadau'n cael eu prosesu, neu caiff eu lleoedd eu tynnu'n ôl. Efallai y gofynnir i rieni gyflwyno cais newydd gyda'r cyfeiriad cywir.

Gall methu â darparu tystiolaeth o gyfeiriad y cartref pan ofynnir amdano arwain at beidio â phrosesu'r cais neu gallai effeithio ar flaenoriaeth y cais dan ystyriaeth.

## (g) Rhannu Cyfrifoldeb

Pan fydd y cyfrifoldeb am y plentyn yn cael ei rannu, a phan fydd y plentyn yn byw gyda'r ddau riant, neu bersonau a chanddynt gyfrifoldeb rhianta cyfreithiol am y plentyn, am ran o'r wythnos, y brif breswylfa fydd y cyfeiriad y mae'r plentyn yn byw ynddo am y rhan fwyaf o'r wythnos ysgol. Defnyddir cyfeiriad y person sy'n derbyn Budd-dal Plant yn brif breswylfa lle mae'r cyfrifoldeb am ofalu am y plentyn wedi'i rannu 50:50.
Bydd cyfeiriad y rhiant sy'n derbyn budd-dal plant ar adeg y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais yn cael ei ystyried fel y prif breswylfa ac efallai y gofynnir i rieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi hyn. Pan wneir unrhyw newidiadau i'r sawl sy'n derbyn y budd-dal plant ar ôl y cyfnod hwn, bydd unrhyw gais yn cael ei ystyried yn gais hwyr.

## (h) Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Anghenion Addysgol Arbennig (ADY/AAA)

Rhaid i rieni nodi a oes gan ddisgybl unrhyw Anghenion Dysgu Ychwanegol neu Anghenion Addysgol Arbennig ar y ffurflen gais pan ofynnir iddynt wneud hynny. Bydd y wybodaeth hon yn helpu ysgolion i gynllunio ymlaen llaw i sicrhau bod darpariaeth ar waith ar gyfer disgyblion pe baent yn cael eu derbyn i'r ysgol. Gofynnir i'r adran ADY/AAA wirio'r ceisiadau hyn.

## (i) Plant Sipsiwn a Theithwyr

Mae'n rhaid i'r Awdurdod, yn statudol, sicrhau bod pob plentyn oed ysgol gorfodol yn derbyn addysg sy'n briodol i'w hoedran, eu galluoedd ac unrhyw anghenion addysgol arbennig, ac yn hybu safonau uchel wrth ddarparu addysg a lles plant. Mae'r rhwymedigaethau hyn yn berthnasol i bob plentyn boed yn breswylwyr parhaol yn yr ardal ai peidio. Bydd ceisiadau derbyn ar gyfer teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu trin gyda'r bwriad o roi'r plant hyn, mor gyflym ag y bo modd, yn yr ysgol agosaf a mwyaf addas sydd ar gael.

## (j) Trefniadau Derbyn Eraill

**Sir Gâr ddwyieithog- Dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**

Gall rhieni fynegi eu bod yn ffafrio ysgol benodol o ran iaith. Fodd bynnag, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i ddatblygu ei system addysg ddwyieithog ymhellach yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032. Credwn yn gryf fod bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog yn fantais i'n plant a'n pobl ifanc. Mae ystyriaethau wedi'u gwneud ar gyfer disgyblion sy'n symud i'r sir heb fawr ddim Cymraeg neu ddim Cymraeg o gwbl. Gall disgyblion o bob oed gael cymorth ar gyfer darpariaeth Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin. Ceir rhagor o fanylion yma: Dysgu Dwyieithog

**Ysgolion Dau Safle**

Pan gyflwynir cais ar gyfer derbyn i ysgol sy'n gweithredu ar fwy nag un safle, bydd yr Awdurdod yn cymeradwyo derbyn i'r ysgol ac nid i safle penodol. Bydd pa safle fydd y plant yn ei fynychu yn fater i'r ysgol benderfynu arno.

# 13. Y MEINI PRAWF GOR-ALW

## AR GYFER DERBYN DISGYBLION I YSGOLION MEITHRIN, CYNRADD AC UWCHRADD CYMUNEDOL A GWIRFODDOL A REOLIR

Os cyflwynir mwy o geisiadau nag sydd o leoedd mewn grŵp blwyddyn penodol mewn ysgol, caiff lleoedd eu dyrannu gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol a restrir yn nhrefn blaenoriaeth:

1. Plant sy’n Derbyn Gofal a phlant a oedd yn arfer Derbyn Gofal.

2. Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol y bydd ganddynt frawd neu chwaer wedi'i gofrestru/chofrestru yno pan fydd y plentyn yn dechrau yn yr ysgol honno.

3. Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol ond na fydd ganddynt frawd na chwaer wedi'i gofrestru/chofrestru yno pan fydd y plentyn yn dechrau yn yr ysgol honno.

4. Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol y bydd ganddynt frawd neu chwaer wedi'i gofrestru/chofrestru yno pan fydd y plentyn yn dechrau yn yr ysgol honno.

5. Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch dynodedig yr ysgol ac na fydd ganddynt frawd na chwaer wedi'i gofrestru/chofrestru yno pan fydd y plentyn yn dechrau yn yr ysgol honno.

D.S. Pan fo Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU) sy'n enwi ysgol benodol ar gyfer Derbyn, mae’n rhaid datgan hynny’n glir ar y ffurflen gais derbyn i ysgolion. Bydd yr Awdurdod yn ymdrin â cheisiadau o’r fath cyn dyrannu unrhyw leoedd yn unol â’r meini prawf gor-alw am leoedd mewn ysgol fel y nodwyd uchod.

**Ar gyfer ceisiadau amser llawn i blant 4 oed mewn ysgolion cynradd - ni ellir defnyddio'r ddarpariaeth Feithrin neu flynyddoedd cynnar ran-amser i blant 3 oed a ddyrannwyd yn faen prawf ar gyfer rhoi blaenoriaeth wrth ddyrannu lleoedd amser llawn mewn ysgol gynradd i blant 4 oed.**

**Ar gyfer ceisiadau Blwyddyn 7 Ysgol Uwchradd - Ni ellir defnyddio'r ysgol gynradd y mae disgybl yn ei mynychu yn faen prawf ar gyfer rhoi blaenoriaeth wrth ddyrannu lle mewn ysgol uwchradd.**

**NODIADAU**
Ym mhob un o’r categorïau uchod:

### (a) Y Meini Prawf o ran Pellter

Lle mae mwy o geisiadau na lleoedd ar gyfer ysgol, bydd y pellter o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ddefnyddio er mwyn dyrannu blaenoriaeth ar gyfer lleoedd gyda'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol yn cael blaenoriaeth a lle yn yr ysgol cyn y rhai sy'n byw ymhellach i ffwrdd.  Mesurir y pellter gan ddefnyddio'r llwybr byrraf ar Google Maps.

Mesurir y pellter o gyfeiriad y cartref i'r ysgol ar hyd y llwybr agosaf o fynedfa agosaf yr ysgol i'r pwynt mynediad agosaf i gyfeiriad y cartref ar briffordd neu lwybr troed cyhoeddus fel y mesurir gan Google Maps.

## (b) Brodyr a Chwiorydd

Bydd plant yn cael eu hystyried yn frodyr neu'n chwiorydd os ydynt yn: Brawd neu chwaer lawn (plant sydd â dau riant yn gyffredin), hanner brawd neu hanner chwaer (plant sydd ag un rhiant yn gyffredin), brawd neu chwaer trwy fabwysiad neu faethiad, llysfrawd neu lyschwaer (plant sy'n perthyn oherwydd bod eu rhieni'n briod, yn cyd-fyw neu mewn partneriaeth sifil), ond ym mhob achos mae'n rhaid i'r plant fod yn byw yn yr un uned deuluol yn yr un cyfeiriad am y rhan fwyaf o'r wythnos.

Os oes preswyliaeth 50/50, cyfeiriad y rhiant/gwarcheidwad sy'n derbyn budd-dal plant a ddefnyddir i brosesu'r cais a rhaid bod y brawd/chwaer ar y gofrestr ac yn mynychu'r ysgol pan fydd eich plentyn yn dechrau yn yr ysgol. Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth os bydd angen. Os na ddarperir tystiolaeth pan ofynnir i chi wneud hynny bydd eich cais yn cael ei ystyried fel un heb frawd neu chwaer yn yr ysgol.

## (c) Plant Genedigaeth Luosog

O dan unrhyw amgylchiadau pan fydd un lle ar gael a phan fydd y plant cymwys nesaf yn efeilliaid/tripledi bydd yr Awdurdod Lleol yn derbyn y ddau / y ddwy / yr holl blant.

## (d) Plant Aelodau Lluoedd Arfog y DU

Bydd plant Aelodau Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig yn cael eu trin fel pe baent o fewn y dalgylch os yw eu ffurflen gais yn cynnwys llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn nodi dyddiad dychwelyd pendant neu ddyddiad penodi swyddogol a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd o fewn y dalgylch.

## Hysbysiad am Gynnig o le i ddisgybl mewn Ysgol

Bydd rhieni'n cael eu hysbysu trwy e-bost yn cadarnhau, neu fel arall, fod lle ar gael yn yr ysgol ac yn cynnig iddynt y cyfle i dderbyn y lle yn unol â'r trefniadau derbyn a nodir yn yr Amserlen Trefniadau Derbyn yn y ddogfen hon.

Rhaid i riant dderbyn yr e-bost cynnig i sicrhau lle yn yr ysgol. Os na fydd rhiant yn ymateb erbyn y dyddiad ar yr e-bost, **mae'n bosibl y bydd y lle yn cael ei dynnu'n ôl a'i gynnig i ddisgybl arall.**

**Mae gwneud cais am le mewn ysgol y tu allan i'r trefniadau derbyn arferol wedi'u nodi yn rhan 9 o'r ddogfen hon.**

## Tynnu Cynnig o Le yn Ôl

Gellir tynnu'r cynnig o le mewn ysgol yn ôl ar y sail:

(i) darganfyddir yn ddiweddarach y cafodd cais twyllodrus neu fwriadol gamarweiniol ei gyflwyno (e.e. honni ar gam preswylio mewn dalgylch ysgol); neu
(ii) os nad yw'r lle a gynigir wedi cael ei dderbyn erbyn y dyddiadau a nodir yn yr e-bost/llythyr. Yna gallai'r Awdurdod ailddyrannu'r lle i blentyn arall.
(iii) Mae lle mewn ysgol arall yn cael ei gadarnhau gan riant/gwarcheidwad
(iv) Os nad yw disgybl wedi dechrau mewn ysgol ar ddiwedd y tymor ysgol yr oedd i fod i ddechrau yn unol â pholisi'r Awdurdod. **Mae gwneud cais am le mewn ysgol y tu allan i'r trefniadau derbyn arferol wedi'u nodi yn rhan 11 o'r ddogfen hon.**

## Ceisiadau Cynnar

Sylwch na ellir defnyddio cais cynnar yn faen prawf ar gyfer rhoi blaenoriaeth wrth ddyrannu llefydd. Mae'r holl geisiadau sy'n dod i law hyd at y dyddiad cau yn cael eu trin yn yr un modd.

## Ceisiadau Hwyr

Ni fydd ceisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau ar gyfer gwneud ceisiadau yn cael eu hystyried nes bod y ceisiadau sydd wedi dod i law cyn y dyddiad cau wedi cael lleoedd. Mae ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau yn llai tebygol o gael lle yn yr ysgol dewis cyntaf y gwnaeth y rhieni gais amdani.

## Rhestr Aros

**Mae rhestrau aros ar gyfer derbyn i'r ysgol y tu allan i'r trefniadau derbyn arferol wedi'u nodi yn rhan 11 o'r ddogfen hon.**

Lle na fu'n bosibl derbyn disgybl, drwy'r trefniadau derbyn arferol, i ysgol o ddewis oherwydd gor-alw, rhaid i'r rhieni roi gwybod i'r Awdurdod trwy e-bostio derbyniadau@sirgar.gov.uk os ydynt am i enw eu plentyn gael ei roi ar y rhestr aros.

Bydd y rhestr aros yn cael ei chadw tan **30 Medi** ar ôl y dyddiad hysbysiad o benderfyniad fel y nodir yn yr Amserlen Trefniadau Derbyn yn y ddogfen hon.

Dylid nodi bod yn rhaid i geisiadau newydd gael eu cyflwyno ar ôl y dyddiad cau sydd ar 30 Medi.

Dim ond os bydd nifer y lleoedd sydd wedi'u dyrannu/ar y gofrestr yn y grŵp blwyddyn perthnasol yn gostwng islaw'r nifer derbyn ar gyfer yr ysgol y bydd disgyblion ar y rhestr aros yn cael eu hystyried.

Os bydd lleoedd gwag ar gael, bydd yr holl geisiadau newydd a hwyr sydd wedi dod i law bryd hynny yn cael eu hystyried ar gyfer y lleoedd gwag ynghyd â'r rhai sydd ar y rhestr aros. Bydd unrhyw leoedd sydd ar gael yn cael eu dyrannu yn unol â'r meini prawf gor-alw.

Bydd ceisiadau ar y rhestr aros ar gyfer y trefniadau derbyn arferol yn cael eu hadolygu'n fisol tan 30 Medi ar ôl y dyddiad hysbysiad o benderfyniad fel y nodir yn yr Amserlen Trefniadau Derbyn yn y ddogfen hon.
Gall rhieni apelio yn erbyn penderfyniad tra byddant ar y rhestr aros ar gyfer nifer o ysgolion.

# 14. APELIADAU YN YMWNEUD Â DERBYN DISGYBLION I YSGOLION CYNRADD NEU UWCHRADD CYMUNEDOL / GWIRFODDOL A REOLIR

Os na fydd rhieni'n llwyddo i gael lle i'w plentyn yn eu dewis ysgol, fe'u hysbysir drwy e-bost o'r rheswm/rhesymau dros hyn a hefyd am eu hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad a'r broses o wneud hynny.

Ar gyfer Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir bydd yr Awdurdod yn trefnu bod Panel Apêl Annibynnol yn ystyried yr apeliadau. Cynhelir y broses apeliadau yn unol â Chôd Apelau Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Nid oes hawl i apelio yn achos gwrthod derbyn i ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar (lleoedd rhan-amser i blant 3 oed).

Bydd apeliadau'n cael eu cynnal yn unigol neu fel grŵp os oes mwy nag un apêl ar gyfer yr un ysgol, ac eithrio pan fydd y corff neu'r cyrff sy'n gyfrifol am wneud trefniadau apelio yn rhoi cyfarwyddyd fel arall. Bydd rhieni'n cael cyfle i gyflwyno eu hachos yn breifat naill ai'n uniongyrchol neu gyda chymorth cynrychiolydd a ddewisir ganddynt. Rhaid cyflwyno'r holl dystiolaeth ategol i'r panel erbyn dyddiad y gwrandawiad apêl neu efallai na fydd y panel yn ystyried hyn. Ni fydd y panel yn gallu ystyried unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol a ddarperir yn dilyn -y gwrandawiad.

Bydd y Clerc yn hysbysu pob parti o benderfyniad y Panel, a fydd yn rhwymo'r Awdurdod, y Corff Llywodraethu a'r rhieni.

Rhaid i apêl gan rieni yn erbyn gwrthod lle mewn Ysgol Gymunedol neu Wirfoddol a Reolir gael ei chyflwyno drwy'r e-ffurflen Apeliadau https://sirgar-self.achieveservice.com/cy/service/School_Admissions_appeals.

**Rhaid cyflwyno'r apeliadau erbyn y dyddiadau cau a nodir ar yr e-bost penderfyniad neu fel y nodir yn yr Amserlen Trefniadau Derbyn yn y ddogfen hon.**

## Cyflwr Meddygol

Os bydd angen tystiolaeth feddygol bydd angen ichi ddarparu copïau o adroddiadau sy'n ymwneud â'r diagnosis gan yr Ymgynghorydd a/neu'r Arbenigwr perthnasol. Bydd gan Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir eu trefniadau eu hunain ar gyfer cynnal apeliadau annibynnol. Yn ogystal â'r uchod, ni fydd unrhyw beth yn y broses hon yn atal rhiant â phlentyn sydd â datganiad o anghenion addysg y gwrthodwyd lle i'r plentyn hwnnw yn yr ysgol a enwir yn y datganiad, rhag cael adolygiad o benderfyniad o'r fath gan Dribiwnlys AAA.

## 15. AMSERLEN TREFNIADAU DERBYN ARFEROL AR GYFER YSGOLION CYMUNEDOL AC YSGOLION GWIRFODDOL A REOLIR 2025-26.

| Trefniadau Darpariaeth | Dyddiad Geni | Dechrau Ysgol | Dyddiad Cau ar gyfer Cyflwyno Cais | Dyddiad hysbysiad o benderfyniad | Dyddiad Cau Apeliadau ar gyfer y ceisiadau hynny a wnaed erbyn y dyddiad cau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blynyddoedd Cynnar Addysg Feithrin Plant 3 blwydd oed** (Rhan-amser yn unig mewn ysgolion 3-11 oed) | 1 Medi 2022<br>a<br>31 Awst 2023 | Ionawr 2026<br>Ebrill 2026<br>Medi 2026 | **31 Gorffennaf 2025** | **Hydref 2025** | **Dim hawl i apelio** |
| **Cynradd 4 - 11** (Addysg llawn amser 4 blwydd oed) | 1 Medi 2021 a 31 Awst 2022 | Ionawr 2026<br>Ebrill 2026<br>Medi 2026 | **31 Ionawr 2025** | **16 Ebrill 2025** neu'r diwrnod gwaith nesaf | **14 Mai 2025** |
| **Addysg Uwchradd**<br><br>**Symud o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd** (Blwyddyn 7) | 1 Medi 2013 a 31 Awst 2014 | Medi 2025 | **29 Tachwedd 2024** | **1 Mawrth 2025** neu'r diwrnod gwaith nesaf | **31 Mawrth 2025** |

**Ceisiadau Cynnar -** Sylwch na ellir defnyddio cais cynnar yn faen prawf ar gyfer rhoi blaenoriaeth wrth ddyrannu llefydd. Mae'r holl geisiadau sy'n dod i law hyd at y dyddiad cau yn cael eu trin yn yr un modd.

**Ceisiadau Hwyr -** Ni fydd ceisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried nes bod y ceisiadau sydd wedi dod i law cyn y dyddiad cau wedi cael lleoedd. Mae ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau yn llai tebygol o gael lle yn yr ysgol dewis cyntaf y gwnaeth y rhieni gais amdani.